

Croeso i Ddosbarth Pysgod Chwim



CALU: Mrs Sian Slack

Cynorthwydd dosbarth: Miss Morgan



Mae pob plentyn yn nosbarth Pysgod Chwim yn meithrin ran-amser. Cynhelir dwy sesiwn un yn y bore ac un yn y prynhawn, bydd y plant yn mynychu un sesiwn y dydd.

Sesiwn fore: 8:50a.m tan 11:45 a.m (disgyblion meithrin hŷn)

Sesiwn brynhawn: 1p.m tan 3:05 p.m (disgyblion meithrin iau)

Trefniadau gadael a chasglu eich plentyn

Ar hyn o bryd, oherwydd Covid-19 gofynnir i rieni/gofalwyr ollwng a chasglu eu plentyn o'r cylchoedd glas sydd wedi'u marcio ar y llwybr o flaen adeilad yr ysgol wrth ymyl drws yr ystafell ddosbarth. Bydd aelod o staff yno i gyfarch eich plentyn. Ni chaniateir i unrhyw riant / gofalwr fynd i mewn i adeilad yr ysgol ar hyn o bryd i'r risg gynyddol o groeshalogi.

Dillad sbâr

Deallwn y gall fod eich plentyn yn cael damwain ac efallai y bydd angen ei newid. Mae gennym ddillad sbâr yn yr ysgol, fodd bynnag, os hoffech ddanfôn bag i'r ysgol gyda'ch plentyn sy'n cynnwys eitemau newid hanfodol yn unig, gallwch wneud hynny. Rhaid i staff yr ysgol allu sychu'r bag a rhaid golchi'r dillad a gynhwysir a'u glanhau.

Byrbrydau a photeli dŵr

Mae'n ofynnol i bob plentyn ddod â photel ddŵr a byrbryd iach gyda nhw. Dylai enw'r plentyn gael ei labelu'n glir ar boteli dŵr a photiau byrbrydau. Byddant yn cael eu sychu wrth gyrraedd yr ysgol a chyn gadael. Yn ystod y sesiwn, bydd yr eitemau'n cael eu cadw yn hambwrdd adnoddau unigol eich plentyn.

Gofal cofleidiol, cinio a chlwb brechwast

Os ydych eich plentyn yn aros am y diwrnod cyfan, bydd eich plentyn yn cael brechwast a chinio yn y neuadd gyda'r 'grŵp addysgu' dynodedig iddo lle bo hynny'n bosibl. Er mwyn lleihau croeshalogi, byddant yn aros yn y grŵp hwnnw lle bo hynny'n bosibl, am y diwrnod cyfan.

Mae'r plant yn cael eu haddysgu trwy ddull y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3-7 mlwydd oed sy'n mynychu ysgolion yng Nghymru. Mae'r dulliau addysgu yn canolbwyntio ar ddatblygiad cyfannol y plentyn - mae'r plentyn yn ganolog i'r dysgu.

Mae'r addysg a gweithgareddau yn cwmpasu anghenion y plentyn, a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae strwythuredig, mae'r plentyn yn meithrin amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau unigryw a gwerthfawr.

Mae'r holl gyfleoedd hyn yn hanfodol ar gyfer y plentyn gan eu bod yn cyfrannu at ddatblygiad y plentyn yn ei gyfanrwydd.

Addysg Gorfforol



Darperir gwersi addysg gorfforol i blant meithrin ar dydd Mawrth. Nid oes rhaid i'r plant wisgo cit ymarfer corff ond os ydych yn dymuno iddynt, mae hynny'n iawn. Mae'r plant fel arfer yn tynnu eu hesgidiau a sanau ac yn mynd i'r neuadd ysgol lle mae'r wers yn cael ei gynnal.

Mercher Mwdlyd - Tu allan



Ar ddydd Mercher mae'r plant yn mynd allan i wneud amryw o weithgareddau. Bydd rhai o'r gweithgareddau yma'n fwdlyd/gwlyb felly gofynnwn yn garedig i blant ddod ag esgidiau glaw a hen ddillad ar y diwrnod hynny.